Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Chwarae Pontardawe**

**Ysgol Gynradd Pontardawe**
**Rhodfa Alltycham**
**Pontardawe**
**Abertawe**
**SA8 4JX**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Chwarae Pontardawe yn darparu gofal dydd llawn i hyd at 14 o blant. Darperir gofal ar gyfer plant rhwng dwy oed ac wyth oed. Mae ar agor rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig. Mae'r Cylch yn darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Y personau cofrestredig a'r personau â chyfrifoldeb yw Julie Davies a Claire Morgan.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
| --- | --- |
| Llesiant | **Digonol** |
| Gofal a Datblygiad | **Digonol** |
| Yr Amgylchedd | **Digonol** |
| Arwain a Rheoli | **Digonol** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant wedi setlo ac yn hapus a chânt gyfleoedd i wneud dewisiadau ynghylch eu chwarae. Mae'r staff yn rhoi gofal i'r plant mewn ffordd gyfeillgar a chynnes. Maent yn gweithio'n gyson i gadw'r plant yn ddiogel ac mae ganddynt systemau sylfaenol ar waith i ddatblygu'r plant. Er bod yr arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel ar y cyfan i'r plant ei archwilio, mae angen gwella rhai meysydd. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol ac yn gweithio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

**2. Gwelliannau**

Ers yr arolygiad blaenorol, mae'r gwasanaeth wedi diweddaru'r datganiad o ddiben i adlewyrchu'r holl amodau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed. Mae hefyd wedi ennill sawl gwobr gan gynnwys gwobrau gweithlu iach a chyn-ysgol iach.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a chaiff y rhain eu nodi'n fanwl ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant Digonol

**Crynodeb**

Mae'r plant yn teimlo'n ddigon diogel a hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae bron pob plentyn yn setlo i mewn i'w trefn arferol. Maent yn gwneud dewisiadau ynghylch eu chwarae. Roedd yr achosion o ryngweithio yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y plant yn ymateb i ymyrraeth gan oedolion mewn perthynas ag ymddygiad. Mae gan y plant ddiddordeb yn y gweithgareddau a'r opsiynau o ran chwarae a gynigir ac maent yn datblygu eu sgiliau'n briodol.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain am eu bod yn derbyn lefel briodol o ymateb/rhyngweithio ac nid yw iaith eu cartref yn cael ei chydnabod. Roedd y plant naill ai'n gallu defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg gyda'r staff. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried ar y cyfan. Yn ystod amser cylch, roedd y plant yn gallu mynegi eu teimladau drwy osod eu llun ar y teimlad cyfatebol. Caiff y plant gyfleoedd i wneud sawl dewis. Er enghraifft, roeddent yn gallu dewis rhwng llaeth neu ddŵr i'w yfed, amrywiaeth o weithgareddau a ph'un a oeddent am ymuno â gweithgareddau a arweiniwyd gan oedolion neu beidio.

Mae'r plant yn delio â bod ar wahân gan fod cyfnodau pontio dyddiol priodol ar waith er mwyn galluogi'r plant i ddatblygu hyder a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Maent yn gyfarwydd â'u trefn arferol, er enghraifft mynd i chwarae'n syth ar ôl cyrraedd neu ddechrau tacluso pan oedd y staff yn cyhoeddi ei bod bron yn amser cylch. Mae'r plant yn fodlon ac yn dangos mwynhad, ac maent yn dechrau meithrin cydberthnasau. Roedd y plant yn eistedd gydag aelodau o'r staff wrth ddarllen stori neu ganu ac yn mynd at y staff yn hyderus i gael maldod neu gymorth gyda rhywbeth. Ar ôl cyrraedd, setlodd un plentyn yn gyflym iawn gan fynd i chwarae'n syth a sgwrsio'n hapus â'r aelodau o'r staff.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol ac mae bron pob plentyn yn cydweithredu. Gwnaethant ofyn am gymorth i roi dillad ar ddoli yn hyderus ac roeddent yn eistedd wrth y byrddau yn ystod amser byrbryd ac amser chinio i fwyta. Chwaraeodd y rhan fwyaf o'r plant gyda'i gilydd a gwnaeth un pâr chwarae gyda'i gilydd i ‘ofalu am’ eu doliau. Pan oedd y plant yn ymddwyn mewn ffordd ddigroeso, roeddent yn gwrando ar ymyrraeth gan y staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau neu geisiadau. Mae'r plant yn dechrau dangos empathi. Dangosodd un plentyn lawer o bryder am blentyn arall a oedd yn gorwedd ar y llawr, gan ofyn i'r aelod o staff a oedd yn iawn a gwnaeth plentyn arall roi gwybod i'r staff yn syth pan oedd plentyn yn crio.

Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Roeddent yn chwarae am gyfnod o amser a oedd yn briodol ar gyfer eu hoedran ac yn canolbwyntio am gyfnod wrth liwio. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae'r plant yn cychwyn eu chwarae a'u gweithgareddau eu hunain, yn dilyn eu diddordebau eu hunain o'r teganau sydd ar gael ac

yn gallu ymuno â gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Gwnaeth y plant ddynwared y staff wrth drafod y tywydd ac aeth pob plentyn ati i liwio eu taflenni ‘Diwrnod Santes Dwynwen’ yn llawn brwdfrydedd, gan nodi pwy oedd yn mynd i dderbyn eu lluniau. Roedd y plant iau yn gwneud synau ac yn siarad â'u hunain wrth chwarae. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn iau barablu iddo'i hun wrth chwarae gyda'r ceir a gwnaeth plentyn arall drafod y bwyd roedd yn ei baratoi yn y gornel gartref.

Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad. Cânt gyfleoedd i fwynhau gweithgareddau a chwarae, gan ddatblygu amrywiaeth o sgiliau megis sgiliau corfforol, creadigol, iaith a rhifedd. Mae'r plant yn cael rhywfaint o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd y plant yn hyderus i estyn teganau ac adnoddau o'r blychau storio yn annibynnol ac yn cael eu hannog i olchi a sychu eu dwylo gyda chymorth oes oedd angen.

## 2. Gofal a Datblygiad **Digonol**

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach er bod angen gwella rhai meysydd. Maent yn rheoli'r achosion o ryngweithio'n briodol, yn arddangos ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn canmol y plant yn rheolaidd. Er bod y staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn ddigonol, mae'r cyfleoedd yn gyfyngedig i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at roi polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Er bod y staff yn gweithio'n dda i fonitro'r plant yn ystod yr ymweliad ar y cyfan, nid oedd unrhyw aelod o'r staff yn monitro'r plant wrth iddynt symud o'r ystafell chwarae i'r coridor i fynd i'r toiled. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a gwnaethant egluro'r hyn y byddent yn ei wneud pe bai digwyddiad yn ymwneud ag amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid oeddent mor hyderus ynghylch yr hyn y dylid ei wneud pe bai honiad yn cael ei wneud yn erbyn yr arweinwyr. Er bod y rhan fwyaf o'r staff yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith, nid oedd y staff yn golchi eu dwylo ar ôl taflu'r hances a ddefnyddiwyd i sychu trwynau'r plant ac nid oedd y plant yn golchi eu dwylo cyn cael byrbryd yn y clwb ar ôl ysgol. Mae'r staff yn annog y plant yn gyson i fwyta'n iach, gan ddarparu tost neu ffrwyth fel byrbryd ac annog y rhieni i ddarparu bocs bwyd iach.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith ar y cyfan. Roeddent yn annog y plant i ymuno â gweithgareddau, ond yn parchu dewis y plant os nad oeddent am gymryd rhan. Roeddent yn dangos cwrteisi i'r plant ac yn defnyddio iaith briodol wrth ddelio ag ymddygiad negyddol. Mae'r staff yn fodelau rôl da bob amser ac maent yn ymatebol, gan wrando ar safbwyntiau'r plant. Roedd y staff yn penlinio i lefel y plant wrth siarad â nhw neu wrando arnynt ac roeddent yn gwenu arnynt yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Roedd y staff yn defnyddio dulliau cwestiynu sylfaenol gyda'r plant wrth chwarae ac mewn gweithgaredd a arweiniwyd gan oedolion. Roedd y staff yn defnyddio taflenni arsylwi a thracwyr yn gyson ar gyfer plant unigol, gan gofnodi sgiliau a datblygiad cyffredinol a'u rhannu â'r rhieni yn rheolaidd. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn rhoi cymorth i'r plant nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Er bod y staff yn cynnig rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth, roedd rhai cyfleoedd yn cael eu colli. Er enghraifft, roedd y staff yn arllwys diodydd y plant iau o jwg ac yn gweini'r bwyd i'r plant hŷn.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu amgylchedd diogel i'r plant ei archwilio. Er eu bod yn cwblhau asesiadau risg, mae angen i'r arweinwyr sicrhau eu bod yn nodi risgiau penodol ac yn cadw cofnod eu hunain o dystysgrifau/profion diogelwch. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd trefnus, sy'n ddigon addas i'r plant ac yn cynnig teganau, adnoddau a chyfarpar priodol.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr fesurau a pholisïau boddhaol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Er bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan a bod yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, nid oedd yr arweinwyr yn gallu dangos cadarnhad ysgrifenedig ar ddiwrnod yr arolygiad fod yr holl wiriadau diogelwch wedi'u cwblhau, er enghraifft...... Ers yr arolygiad, mae'r arweinwyr wedi cadarnhau eu bod ar waith erbyn hyn ac wedi anfon copi o'r tystysgrifau diogelwch at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau sylfaenol sy'n adlewyrchu arferion hylendid boddhaol. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg perygl tân a chyffredinol boddhaol, y maent yn eu hadolygu'n flynyddol ac yn gweithredu arnynt, ond nid ydynt yn nodi risgiau penodol. Er enghraifft, nid yw'r asesiad risg cyffredinol yn nodi risgiau mewn perthynas â'r drws i fynd tu allan, y clo ar giât ardal y gegin, y weithdrefn ar gyfer goruchwylio'r plant wrth fynd i'r toiled, cyfarpar chwarae'r ysgol yn yr awyr agored a'r sychwyr dwylo. Ers yr arolygiad, mae'r arweinwyr wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y weithdrefn o oruchwylio'r plant wrth fynd i'r toiled ac ar gyfer y sychwyr dwylo.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o ardaloedd chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae lle i'r plant chwarae ar y llawr yn ogystal ag ar y byrddau ac uwchben y droriau storio. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ac y gellir defnyddio'r ardal chwarae fwy yn yr ysgol, sy'n cynnwys mwy o adnoddau a chyfarpar. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd mewn ffordd briodol fel ei fod yn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer ystodau oedran y plant y gofelir amdanynt. Ar y cyfan, mae'r safle yn groesawgar ac yn gynnes.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall llawer o'r plant gael mynediad at amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau a chyfarpar dan do sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Maent yn cynnig dodrefn a chyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant yn ogystal â rhai adnoddau sy'n hyrwyddo amlddiwylliannaeth. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod rhai adnoddau a theganau ar gael i'r plant hŷn a allai fod yn mynychu'r clwb ar ôl ysgol. Mae digon o adnoddau i ennyn diddordeb y plant gan gynnwys peli, beiciau, eitemau byd bach, llyfrau, cyfarpar adeiladu ac adnoddau dychmygol. Mae ardal chwarae awyr agored sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig rhai cyfleoedd chwarae i'r plant.

## 4. Arwain a Rheoli Digonol

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n ddigonol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ar y cyfan ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae ganddynt broses hunanwerthuso sylfaenol ar waith. Er bod yr arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau eraill yn briodol, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Mae'r arweinwyr yn datblygu cydberthnasau cadarn â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

Er bod gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben boddhaol, nid oedd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfleusterau, gwasanaethau, gweithgareddau nac enghraifft o'r arferion ac nid oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn llawn. Ers yr ymweliad, mae'r gwasanaeth wedi diweddaru ei ddatganiad o ddiben i gynnwys yr holl fanylion gofynnol ac i adlewyrchu'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r arweinwyr wedi datblygu polisïau a chânt eu hadolygu'n flynyddol. Er eu bod yn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn gyffredinol, nid ydynt yn adlewyrchu eu hymarfer yn glir. Er enghraifft, nid yw'r polisi meddyginiaeth yn nodi'n glir nad yw'r gwasanaeth yn rhoi meddyginiaeth dros y cownter ac roedd dau bolisi cwynion ar gael, gydag un yn nodi 14 diwrnod a'r llall yn nodi 10 diwrnod ar gyfer delio â chwynion. Ers yr ymweliad, mae'r arweinwyr wedi diwygio eu polisïau i adlewyrchu eu hymarfer yn glir. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Er bod yr arweinwyr yn cadw bron pob un o'r cofnodion gofynnol, nid oedd gan bob plentyn yr un caniatâd gan rieni ac nid oedd pob ffurflen wedi'i llofnodi.

Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd gofal yn flynyddol. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr a'r staff. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn dangos yr ymateb i'r holiaduron a ddychwelwyd ac yn egluro’r ffordd caiff eu gwasanaeth ei redeg, gan gynnwys staffio, polisïau a gweithdrefnau ac iechyd a diogelwch. Mae'r gwasanaeth wedi ennill sawl gwobr yn ddiweddar, gan gynnwys gwobrau Efydd ac Arian Iechyd Gweithle Bach yn ogystal â'r wobr Cyn-ysgol Iach. Mae'r arweinwyr yn gweithio tuag at ennill y wobr Byrbryd Iach ar hyn o bryd.

Er bod yr arweinwyr yn dilyn proses recriwtio sylfaenol i ddiogelu'r plant, nid oedd yr holl dystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi ar waith. Er enghraifft, roedd Curriculum Vitae (CV) ar goll ar gyfer un aelod o'r staff ac roedd CV a datganiad meddygol o iechyd ar goll ar gyfer aelod arall. Er bod gan aelod arall CV, roedd bylchau yn yr hanes cyflogaeth ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i egluro'r bylchau na disgrifiad swydd ar waith ar ei gyfer. Ers yr ymweliad, mae'r arweinwyr wedi cadarnhau bod yr holl dystiolaeth o wiriadau addasrwydd ar waith. Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu briodol ar waith ar gyfer y gwirfoddolwyr a'r staff. Eglurodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael llawer o gefnogaeth ac yn derbyn gwybodaeth dda i sicrhau eu bod yn gallu gweithio'n dda. Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog ymarferwyr i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall, gan

gynnwys rheoli ymddygiad a chodi a chario. Mae'r arweinwyr yn cwblhau sesiynau goruchwylio ac arfarnu sylfaenol, ac yn cynnal trafodaethau rheolaidd ar lafar. Er y gwnaeth yr arweinwyr ddefnyddio'r staff gan sicrhau bod y cymarebau staffio'n cael eu dilyn ar y cyfan ar ddiwrnod yr arolygiad, dangosodd y cofnodion presenoldeb blaenorol nad oedd cofnod penodol o'r amseroedd lle roedd y staff yn gofalu am y plant. Ers yr ymweliad, mae'r arweinwyr wedi cadarnhau eu bod yn cofnodi amseroedd gwirioneddol presenoldeb y staff gan gynnwys yr amseroedd lle nad yw'r staff yn gofalu am y plant yn uniongyrchol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn ddigonol. Ar y cyfan, maent yn sicrhau bod y rhieni'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf adborth ar lafar a negeseuon dyddiol. Mae'r arweinwyr yn datblygu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol perthnasol a'r gymuned. Roedd yr adborth gan y rhieni/gofalwyr yn gadarnhaol. Roedd eu sylwadau yn cynnwys eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth, eu bod yn derbyn llawer o wybodaeth a bod eu plant wedi setlo'n gyflym iawn. Dywedodd y plant eu bod yn hoffi dod i'r gwasanaeth a bod ganddynt lawer o ffrindiau yno.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

- bod y staff yn hyderus ynghylch yr hyn y dylid ei wneud pe bai honiad yn cael ei wneud yn erbyn yr arweinwyr;
- bod y staff yn sicrhau eu bod yn gyson wrth sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn cael byrbryd a bod y staff yn golchi eu dwylo ar ôl helpu'r plant i sychu eu trwynau;
- bod y staff yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant;
- bod yr arweinwyr yn datblygu rôl yr aelodau o'r staff er mwyn gwella chwarae'r plant;
- bod yr arweinwyr yn bwrw golwg dros yr asesiadau risg i nodi risgiau penodol ac yn eu diweddaru;
- bod yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cadw cofnodion cyson wrth ofalu am y plant;
- bod yr arweinwyr yn cadw copi o dystysgrifau diogelwch ar gyfer eu cofnodion eu hunain.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 23 Ionawr 2020 am tua 6 awr a 50 munud. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- gwnaethom arsylwadau cyffredinol ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- cynnal gwaith arsylwi gan ddefnyddio adnodd SOFI 2;
- cynnal arolygiad gweledol o'r ystafelloedd y mae'r plant yn eu defnyddio;
- siarad â'r staff, y person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb a rhai o'r rhieni;
- darparu adborth dros y ffôn ar 29 Ionawr 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Julie Davies**<br>**Claire Morgan** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Claire Morgan**<br>**Julie Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **14** |
| **Ystod oedran y plant** | **Dwy i wyth mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **8am i 5pm**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>**Yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **9 Mawrth 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **23 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/03/2020